Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Bontnewydd

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws Gymreig, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygu cymuned ddysgu ofalgar, hapus a diogel.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio’n dda â’u cyfoedion. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu’n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd cryf. Maent yn cymhwyso eu medrau siarad Cymraeg mewn ystod eang o weithgareddau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu a’u medrau mathemateg yn bwrpasol, hefyd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a’u medrau ysgrifennu estynedig yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae’r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu dwfn, sy’n adeiladu ar fedrau a addysgwyd yn y gorffennol yn effeithiol. Ar y cyfan, mae’r sesiynau addysgu yn cynnwys gweithgareddau dysgu diddorol yn yr ardaloedd dysgu sy’n cynnig y lefel briodol o her. Serch hynny, mewn ychydig iawn o wersi, pan mae’r addysgu’n llai effeithiol, mae disgwyliadau’r athrawon yn rhy isel, cyflymder y gwersi’n rhy araf ac mae gorddibyniaeth ar fframweithiau parod sy’n cyfyngu ar allu’r disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth wrth ddysgu.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol. Mae’n creu amgylchedd dysgu pwrpasol yn seiliedig ar ethos o ‘ddysgu gyda’n gilydd’ sy’n hybu gwaith tîm effeithiol. Mae’r amgylchedd anogol hwn, sy’n ganolog i’w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad da a brwdfrydedd ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion trwy werthusiadau rheolaidd yn arwain at brosesau gwella cadarn. Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn drylwyr, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Cydlynu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Lleihau'r defnydd o fframweithiau parod er mwyn hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion ymhellach Adroddiad llawn

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025